TRAWSNEWID ADDYSG | TRANSFORMING EDUCATION



# Newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon

Dogfen Ymgynghori

Os oes angen copi o’r ddogfen hon arnoch mewn fformat gwahanol, cysylltwch efo’r Tîm Trawsnewid Addysg ar 01597 826618, neu trwy e-bost school.organisation@powys.gov.uk.

Powys

**Ymgynghoriad ar newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon**

# Cynnwys


**TROSOLWG....3**

**RHAN A – YR ACHOS DROS NEWID....5**

1. Y CEFNDIR....5
2. PAM MAE ANGEN NEWID YM MHOWYS....7
3. Y CYD-DESTUN STRATEGOL....9
4. PAM MAE ANGEN NEWID YN YSGOL DYFFRYN TRANNON....10
5. MANTEISION DWYIEITHRWYDD....11
6. Y DEWISIADAU A YSTYRIWYD....12

**RHAN B – Y CYNNIG....14**

7. TROSOLWG....14
8. Y RHESYMAU DROS Y CYNNIG....14
9. MANTEISION AC ANFANTEISION....15
10. Y RISGIAU....15
11. AMSERLEN WEITHREDU BOSIBL....16

**RHAN C – EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG....17**

12. YR EFFAITH AR DDISGYBLION....17
13. YR EFFAITH AR STAFF....17
14. YR EFFAITH AR DREFNIADAU LLYWODRAETHU....17
16. YR EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU MEWN ADDYSG....17
17. YR ANGEN AM LEOEDD A'R EFFAITH AR Y LLEOEDD SYDD AR GAEL A HYGYRCHEDD YSGOLION....21
18. ADNODDU ADDYSG A GOBLYGIADAU ARIANNOL ERAILL....22
19. FFACTORAU I'W HYSTYRIED MEWN CYSYLLTIAD Â CHYNIGION I NEWID Y CYFRWNG IAITH....25
20. ASESIADAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB, Y GYMUNED A'R GYMRAEG 26

**RHAN D – MANYLION YR YMGYNGHORIAD....28**

**ATODIAD A – DATA ALLWEDDOL....31**

**ATODIAD B – DADANSODDIAD CRYFDERAU, GWENDIDAU, CYFLEOEDD A BYGYTHIADAU (SWOT) A FFACTORAU LLWYDDIANT CRITIGOL....42**

ATODIAD C – RHESYMAU PAM NA CHAFODD YR OPSIYNAU ERAILL EU DWYN YMLAEN....46

**ATODIAD D – FFURFLEN YMATEB....47**

**Ymgynghoriad ar newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon**

## TROSOLWG

## 1. Y Cynnig

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar gynnig i newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon. Mae'r cynnig fel a ganlyn:

- Gwneud newid rheoledig er mwyn newid cyfrwng yr addysg yn Ysgol Dyffryn Trannon o ddwyieithog i gyfrwng Cymraeg.
- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno fesul cam, o flwyddyn i flwyddyn, gan ddechrau gyda'r Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2022.

## 2. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r holiadur ar-lein sydd ar gael ar ein gwefan:

https://cy.powys.gov.uk/article/10462/Ysgol-Dyffryn-Trannon

Mae copi o'r holiadur ar gael yng nghefn y ddogfen hon hefyd. Fel arall, gallwch ymateb yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Mae'n rhaid i ni dderbyn pob ymateb erbyn **15 Ebrill 2021.**

## 3. Manylion cyswllt

Dylid anfon pob ymateb i'r cyfeiriad canlynol:

Tîm Trawsnewid Addysg
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

E-bost: school.consultation@powys.gov.uk

Ffôn: 01597 826618

## 4. Beth fydd yn digwydd nesaf

Pan fydd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben, caiff adroddiad ymgynghori ei lunio a fydd yn amlinellu'r sylwadau a gafwyd. Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn ystyried a yw'n dymuno bwrw ymlaen â'r naill ddewis a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori ai peidio. Disgwylir i hyn ddigwydd ym mis Mai 2021.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion, byddai hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi, a bydd cyfnod o 28 diwrnod dilynol i bobl gyflwyno gwrthwynebiad. Yna, byddai angen i'r Cabinet ystyried adroddiad arall yn crynhoi unrhyw wrthwynebiad a gafwyd a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r gweithredu ai peidio.

## RHAN A – YR ACHOS DROS NEWID

**Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar gynnig i newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon. Mae'r cynnig fel a ganlyn:**

- **Gwneud newid rheoledig er mwyn newid cyfrwng yr addysg yn Ysgol Dyffryn Trannon o ddwy ffrwd i gyfrwng Cymraeg.**
- **Byddai hyn yn cael ei gyflwyno fesul cam, o flwyddyn i flwyddyn, gan ddechrau gyda'r Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2022.**

### 1. Y CEFNDIR

Ysgol gynradd dwy ffrwd a leolir ym mhentref Trefeglwys yng Ngogledd Powys yw Ysgol Dyffryn Trannon. Yn ogystal â gwasanaethu pentref Trefeglwys a'r pentrefi cyfagos, yr ysgol yw'r unig ddarparwr cynradd cyfrwng Cymraeg yn nalgylch Llanidloes, felly mae nifer sylweddol o ddisgyblion o dref Llanidloes yn mynychu'r ysgol.

Mae'r canlynol yn grynodeb o ddata allweddol sy'n ymwneud ag Ysgol Dyffryn Trannon:

| | Math o Ysgol | Categori Iaith | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Dyffryn Trannon** | Ysgol Gynradd Gymunedol<br><br>Cyngor Sir Powys sy'n berchen ar adeilad yr ysgol | Dwy Ffrwd | 20 |

Mae niferoedd presennol y disgyblion[1] yn Ysgol Dyffryn Trannon fel a ganlyn:

| | D | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrwng Cymraeg | 11 | 15 | 13 | 16 | 12 | 21 | 9 | 97 |
| Cyfrwng Saesneg | 0 | 0 | 1 | 1 | 4 | 2 | 4 | 12 |
| Cyfanswm | 11 | 15 | 14 | 17 | 16 | 23 | 13 | 109 |

Mae'r nifer isel iawn o ddisgyblion cyfrwng Saesneg yn yr ysgol yn achosi her i'r ysgol o ran darparu darpariaeth briodol i'r dysgwyr hyn. Addysgir disgyblion mewn dosbarthiadau bach, gyda nifer uchel o grwpiau blwyddyn ym mhob dosbarth.

[1] Nifer ar y gofrestr Cyllid – Diwrnod Cyfrif Disgyblion 2020 (6 Tachwedd 2020)

Mae Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys yn cynnwys nod o 'wella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod allweddol', yn ogystal ag amcan o 'symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith'.

Er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion hyn, mae'r Cyngor yn awyddus i yngynghori ar newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon er mwyn mynd i'r afael â'r nifer bach o ddisgyblion sy'n defnyddio darpariaeth cyfrwng Saesneg yn yr ysgol. Byddai hyn yn sicrhau bod pob disgybl sy'n mynychu'r ysgol yn cael cyfle i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gyfrannu at ddyhead Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Cymerwyd y camau canlynol:

- Trafodaethau gyda chynrychiolwyr Ysgol Dyffryn Trannon
- Ymarfer arfarnu dewisiadau
- Ystyriodd Bwrdd y Rhaglen Trawsnewid Addysg yr arfarniad o ddewisiadau a chytuno arno
- Ystyriodd y Cabinet yr argymhelliad a chytuno arno

Yr argymhelliad y cytunodd y Cabinet arno ar 26 Ionawr 2021 oedd y dylid dechrau ymgynghori ar y canlynol:

*'Gwneud newid rheoledig er mwyn newid cyfrwng yr addysg yn Ysgol Dyffryn Trannon o ddwyieithog (dwy ffrwd) i gyfrwng Cymraeg*

*Byddai hyn yn cael ei gyflwyno fesul cam, o flwyddyn i flwyddyn, gan ddechrau gyda'r Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2022.'*

## 2. PAM MAE ANGEN NEWID YM MHOWYS

Mae Powys yn awdurdod gwledig mawr. Mae'n cwmpasu chwarter o dirwedd Cymru, mae'n cynnwys 4.2% o'r boblogaeth yn unig, sy'n golygu mai hon yw'r sir â'r boblogaeth fwyaf gwasgaredig yng Nghymru. Mae darparu gwasanaethau ar draws ardal mor fawr â phoblogaeth mor wasgaredig yn heriol ac yn ddrud.

Er y bu rhywfaint o weithgarwch ad-drefnu ysgolion ym Mhowys yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae seilwaith ysgolion y sir yn parhau i fod yn debyg i'r hyn a oedd ar waith 20 mlynedd yn ôl.

Mae Strategaeth newydd y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys yn amlinellu nifer o heriau i addysg ym Mhowys, a nodwyd ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn ystod tymor yr hydref 2019 a thymor y gwanwyn 2020.

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r prif heriau i'r Cyngor:

### i) Cyfran uchel o ysgolion bach

Ar sail ffigurau CYBLD 2019, roedd 33 o ysgolion cynradd bach ym Mhowys – mae hyn gyfwerth ag oddeutu 40% o ddarpariaeth gynradd yn y sir. Roedd gan 21 o ysgolion lai na 50 o ddisgyblion, ac i'r ysgolion hynny, mae cyfran y gyllideb fesul disgybl yn uwch ar y cyfan na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd Powys.

### ii) Gostyngiad yn niferoedd y disgyblion

Mae niferoedd y disgyblion wedi gostwng yn ystod y degawd diwethaf, a disgwylir iddynt ostwng yn fwy yn ystod y pum mlynedd nesaf. Disgwylir i niferoedd y disgyblion yn y sector cynradd ym Mhowys ostwng oddeutu 4% erbyn 2025.

### iii) Nifer uchel o leoedd dros ben

Ar sail ffigurau CYBLD 2019, roedd 18% o gapasiti ysgolion cynradd Powys dros ben. Oherwydd yr amcanestyniad y bydd nifer y disgyblion ledled Powys yn gostwng yn gyffredinol yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd cyfran y lleoedd dros ben ledled y sir yn parhau i gynyddu.

### iv) Cyflwr yr adeiladau

Er bod y Cyngor wedi buddsoddi yn ei ystâd ysgolion drwy'r Rhaglen Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif a'r Cynllun Rheoli Asedau, mae cyflwr adeiladau yn parhau i fod yn broblem ledled Powys, gyda chostau cynnal a chadw cysylltiedig.

**v) Pwysau ariannol**

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn gyffredinol. Mae hyn yn effeithio ar bob maes gwasanaeth, gan gynnwys y sector ysgolion. Ceir amrywiadau sylweddol yn y gyfran o'r gyllideb fesul disgybl ar draws ysgolion Powys, gan amrywio o £3,127 i £7,877 yn y sector cynradd.

**vi) Anghydraddoldeb o ran y gallu i gael addysg cyfrwng Cymraeg**

Yn wahanol i rannau eraill o Gymru, ni fu twf yn nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg ym Mhowys yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae angen newidiadau sylweddol i'r cynnig cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ym Mhowys er mwyn gwrthdroi tuedd y blynyddoedd diwethaf a sicrhau bod holl ddysgwyr Powys yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gynhwysfawr drwy gydol eu gyrfaoedd addysgol.

**vii) Cynnig ôl-14 ac ôl-16 cyfyngedig**

Ym mis Medi 2019, ystyriodd Cabinet y Cyngor adroddiad ar ddarpariaeth ôl-16 a wnaeth amlinellu nifer o heriau i'r sector, gan gynnwys gostyngiad yn niferoedd y dysgwyr, heriau ariannol a chynaliadwyedd y cwricwlwm a gynigir, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**viii) Anghydraddoldeb o ran y gallu i gael darpariaeth AAA**

Ym Mhowys, mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn mynychu amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ysgolion arbennig, canolfannau arbenigol, yr uned cyfeirio disgyblion (UCD) yn ogystal ag ysgolion prif ffrwd.

Ar hyn o bryd, nid yw pob disgybl yn cael ei addysgu yn y lleoliad sy'n diwallu ei anghenion orau, a gan ddibynnu ar ble mae disgyblion yn byw, mae'r ddarpariaeth sydd ar gael iddynt o wahanol ansawdd a math.

**ix) Diffyg penderfyniadau gwleidyddol hanesyddol**

Er y bu rhai datblygiadau o ran seilwaith ysgolion yn ystod blynyddoedd diweddar, mae methiant y Cyngor i weithredu nifer o gynigion proffil uchel yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi gadael ei ôl ym Mhowys, a bu amharodrwydd i ddechrau ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg ar raddfa fawr ers hynny.

## 3. Y CYD-DESTUN STRATEGOL

Yn ystod haf 2019, arolygwyd Gwasanaethau Addysg Powys gan Estyn. Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Estyn yn sgil yr arolygiad yn amlinellu pryderon sylweddol ynghylch cynnydd y Cyngor o ran ad-drefnu ysgolion, ac mae'n cynnwys argymhelliad i 'Sicrhau bod trefniadaeth y ddarpariaeth ar gyfer addysg nas cynhelir, addysg ôl16, addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg uwchradd yn bodloni anghenion plant a phobl ifanc Powys.'

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, cynhaliodd y Cyngor adolygiad strategol o ysgolion yn ystod 2019-20, a arweiniodd at ddatblygu Strategaeth newydd ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys. Cymeradwywyd y strategaeth, a ddatblygwyd ar ôl ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, ym mis Ebrill 2020.

Mae'r strategaeth yn nodi Datganiad y Weledigaeth ac Egwyddorion Arweiniol a fydd yn tanategu gwaith y Cyngor o ran trawsnewid system addysg Powys yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Mae Datganiad y Weledigaeth fel a ganlyn:

***Bydd holl blant a phobl ifanc Powys yn derbyn addysg ysbrydoledig o ansawdd uchel i'w helpu i ennill y wybodaeth, sgiliau a'r nodweddion i fod yn bobl iach, economaidd gynhyrchiol sy'n gymdeithasol a byd-eang gyfrifol ac yn gallu gwireddu eu dyheadau personol yng Nghymru'r 21ain ganrif.***

Mae Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys yn cynnwys nod o 'wella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod allweddol', yn ogystal ag amcan o 'symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith'.

Er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion hyn, mae'r Cyngor yn awyddus i yngynghori ar symud Ysgol Dyffryn Trannon ar hyd y continwwm iaith. Byddai hyn yn sicrhau bod pob disgybl sy'n mynychu'r ysgol yn cael cyfle i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gyfrannu at ddyhead Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## 4. PAM MAE ANGEN NEWID YN YSGOL DYFFRYN TRANNON

Mae nifer y disgyblion cyfrwng Saesneg yn Ysgol Dyffryn Trannon wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae niferoedd presennol y disgyblion yn yr ysgol fel a ganlyn:

| | **D** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrwng Cymraeg | 11 | 15 | 13 | 16 | 12 | 21 | 9 | 97 |
| Cyfrwng Saesneg | 0 | 0 | 1 | 1 | 4 | 2 | 4 | 12 |
| Cyfanswm | 11 | 15 | 14 | 17 | 16 | 23 | 13 | 109 |

Mae'r nifer isel iawn o ddisgyblion cyfrwng Saesneg yn yr ysgol yn achosi her i'r ysgol o ran darparu darpariaeth briodol i'r dysgwyr hyn. Addysgir disgyblion mewn dosbarthiadau bach, gyda nifer uchel o grwpiau blwyddyn ym mhob dosbarth. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddisgyblion cyfrwng Saesneg yn y Dosbarth Derbyn nac ym mlwyddyn 1.

Mae Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys yn cynnwys nod o 'wella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod allweddol', yn ogystal ag amcan o 'symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith'.

Er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion hyn, mae'r Cyngor yn awyddus i ymgynghori i newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon er mwyn mynd i'r afael â'r nifer bach o ddisgyblion sy'n defnyddio darpariaeth cyfrwng Saesneg yn yr ysgol. Byddai hyn yn sicrhau bod pob disgybl sy'n mynychu'r ysgol yn cael cyfle i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gyfrannu at ddyhead Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## 5. MANTEISION DWYIEITHRWYDD

Mae rhwng 60% a 75% o boblogaeth y byd yn ddwyieithog, ac mae ymchwil ryngwladol wedi dangos bod llawer o fanteision yn gysylltiedig â bod yn ddwyieithog. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae plant sy'n agored i wahanol ieithoedd yn dod yn fwy ymwybodol o wahanol ddiwylliannau, pobl eraill a safbwyntiau eraill
- Mae tuedd i blant dwyieithog fod yn well na phlant uniaith o ran gallu i 'amldasgio' a chanolbwyntio
- Yn gyffredinol, mae pobl ddwyieithog yn ei chael yn haws dysgu ieithoedd eraill
- Mae ymchwil yn awgrymu y gall dysgu iaith arall oedi dechrau dementia

Yng Nghymru, mae bod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg yn cyflwyno manteision ychwanegol o ran chwilio am waith, oherwydd bod cyflogwyr yn chwilio mwyfwy am bobl sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Addysg cyfrwng Cymraeg yw'r ffordd orau o sicrhau bod pobl ifanc yn dod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw mwyafrif y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn siarad Cymraeg wrth ddechrau yn yr ysgol, ond maent yn cael eu trochi yn y Gymraeg wrth ddechrau yn yr ysgol, gan ddod yn gwbl ddwyieithog, ac maent yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Ceir rhagor o wybodaeth am ddwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg yn https://llyw.cymru/cymraeg-addysg

## 6. Y DEWISIADAU A YSTYRIWYD

Nodwyd y dewisiadau canlynol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a achoswyd gan strwythur dwy ffrwd bresennol yr ysgol:

| Dewis | Disgrifiad |
|---|---|
| 1 | Y sefyllfa bresennol – Ysgol Dyffryn Trannon yn parhau i weithredu fel ysgol dwy ffrwd |
| 2 | Newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon yn gyfrwng Cymraeg |
| 3 | Newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon yn gyfrwng Saesneg |

Cynhaliwyd dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) ar bob un o'r dewisiadau hyn. Hefyd, mae'r dewisiadau wedi eu hasesu o'u cymharu â nifer o Ffactorau Llwyddiant Critigol. Mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad B i'r ddogfen hon.

Ar sail y dadansoddiadau SWOT a'r asesiad Ffactorau Llwyddiant Critigol, dyma'r dewis a ffefrir ar gyfer Ysgol Dyffryn Trannon:

**Dewis 2: Newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon yn gyfrwng Cymraeg**

Dyma'r rhesymau dros hyn:

- Byddai'n galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon fel ysgol un ffrwd
- Byddai pob disgybl yn yr ysgol yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn datblygu sgiliau dwyieithog
- Y potensial i gynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
- Gellid cynnig mwy o gyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg
- Gwelliant yn sgiliau Cymraeg disgyblion drwy well ethos Cymraeg
- Byddai'n sicrhau y byddai pob disgybl yn cael ei addysgu mewn grwpiau blwyddyn o faint priodol
- Arbedion ariannol bach posibl i'r awdurdod
- Cyflawni'r holl Ffactorau Llwyddiant Critigol
- Cefnogi amcan y Cyngor i 'Symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol' fel y nodir yn y Strategaeth Trawsnewid Addysg ym Mhowys

Er mwyn lleihau'r effaith ar y disgyblion presennol, argymhellir gweithredu'r dewis a ffefrir sy'n dod i'r amlwg fesul cam, gan ganiatáu i ddisgyblion sy'n derbyn darpariaeth cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd i barhau i wneud hynny tan ddiwedd blwyddyn 6.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r dewis a ffefrir hwn, mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y canlynol:

- Gwneud newid rheoledig er mwyn newid cyfrwng yr addysg yn Ysgol Dyffryn Trannon o ddwyieithog (dwy ffrwd) i gyfrwng Cymraeg

- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno fesul cam, o flwyddyn i flwyddyn, gan ddechrau gyda’r Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2022.

Caiff y cynnig hwn ei ystyried ymhellach yn yr adran ganlynol.

**RHAN B – Y CYNNIG**

## 7. TROSOLWG

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar gynnig i newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon. Mae'r cynnig fel a ganlyn

- Gwneud newid rheoledig er mwyn newid cyfrwng yr addysg yn Ysgol Dyffryn Trannon o ddwyieithog (dwy ffrwd) i gyfrwng Cymraeg.
- Bydd hyn yn cael ei gyflwyno fesul cam, o flwyddyn i flwyddyn, gan ddechrau gyda'r Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2022.

Byddai hyn yn golygu'r canlynol:

- Byddai darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei chyflwyno'n raddol fesul blwyddyn, gan ddechrau gyda'r Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2022
- Yn y pen draw, byddai holl ddisgyblion yr ysgol yn derbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau y byddai pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg

## 8. Y RHESYMAU DROS Y CYNNIG

Yn ogystal â'r cryfderau a'r cyfleoedd a nodir yn Atodiad B, mae'r Cyngor yn cynnig newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon am y rhesymau canlynol:

- Gwella deilliannau addysgol
    - Ni fyddai plant yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oedran cymysg bach mwyach
    - Byddai mwy o ddisgyblion yn rhugl ac yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal
- Gwella'r ddarpariaeth addysgol
    - Ceir cyfleoedd i ddatblygu cwricwlwm ehangach er mwyn diwallu anghenion disgyblion
    - Byddai bod ag un ffrwd iaith yn ei gwneud yn haws monitro a thargedu cynnydd a llesiant disgyblion
- Gwella arweinyddiaeth a rheolaeth
    - Gallai tîm rheoli'r ysgol weithio'n fwy effeithlon
- Gwella effeithlonrwydd wrth ddarparu addysg
    - Ceir potensial i'r ysgol weithredu'n fwy effeithlon drwy ddefnyddio staff ac adnoddau mewn modd mwy effeithlon

- Cynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg
    - Byddai mwy o ddisgyblion yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## 9. MANTEISION AC ANFANTEISION

Ceir crynodeb isod o fanteision ac anfanteision y cynnig presennol i newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon:

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| - Byddai'n galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon fel ysgol un ffrwd<br>- Yr effaith leiaf bosibl ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd – byddai'r ddarpariaeth yn parhau nes iddynt adael yr ysgol<br>- Byddai pob disgybl yn yr ysgol yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn datblygu sgiliau dwyieithog<br>- Y potensial o gynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg<br>- Gellid cynnig mwy o gyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg<br>- Gwelliant yn sgiliau Cymraeg disgyblion drwy well ethos Cymraeg<br>- Byddai'n sicrhau y byddai pob disgybl yn cael ei addysgu mewn grwpiau blwyddyn o faint priodol<br>- Mae'n bodloni strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys<br>- Arbedion ariannol bach posibl i'r awdurdod | - Mae'n bosibl y bydd disgyblion yn dewis mynychu ysgolion eraill er mwyn derbyn darpariaeth cyfrwng Saesneg<br>- Gallai fod yn amhoblogaidd ymhlith rhai aelodau o'r gymuned leol<br>- Yr effaith ar staff di-Gymraeg<br>- Cyfnod pontio hir i'r ysgol |

## 10. Y RISGIAU

Fel gyda phob cynnig i ad-drefnu ysgolion, mae risgiau'n gysylltiedig â'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon o ddwy ffrwd i gyfrwng Cymraeg.

Amlinellir y rhain isod, ynghyd ag awgrymiadau o gamau lliniaru:

| Risg | Sgôr Risg Gynhenid | Camau Lliniaru | Sgôr Risg Weddilliol |
|---|---|---|---|
| Nid yw rhieni'n dymuno i'w plant fynychu ysgol Gymraeg, felly maent yn penderfynu eu symud i ysgolion eraill | Canolig | - Cyflwyno'r newid fesul cam er mwyn lleihau'r effaith ar y disgyblion presennol<br>- Ymgysylltu â rhieni drwy gydol y broses | Isel |
| Mae rhieni'n dewis anfon eu plant i ysgolion eraill yn y dyfodol yn lle Ysgol Dyffryn Trannon, a fyddai'n effeithio ar gyllideb yr ysgol ac yn cynyddu lleoedd dros ben | Canolig | - Ymgyrch hyrwyddo i helpu rhieni i ddeall manteision addysg ddwyieithog a'r cymorth sydd ar gael, e.e. Trochi | Isel |

## 11. AMSERLEN WEITHREDU BOSIBL

Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion, mae amserlenni gweithredu posibl fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Ymgynghoriad Ffurfiol | 25 Chwefror 2021 i 15 Ebrill 2021 |
| Cabinet i gyhoeddi Adroddiad Ymgynghori a'i ystyried | Haf 2021 |

**Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen:**

| | |
|---|---|
| Cyhoeddi Hysbysiad Statudol (cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod) | Gorffennaf 2021 |
| Cabinet i gyhoeddi Adroddiad Gwrthwynebu a'i ystyried | Medi 2021 |

**Os yw'r Cabinet yn cymeradwyo'r gweithrediad:**

| | |
|---|---|
| Dechreuir diddymu'r ffrwd Saesneg yn raddol, fesul blwyddyn, gan ddechrau gyda'r Dosbarth Derbyn | Medi 2022 |

## RHAN C – EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG

## 12. YR EFFAITH AR DDISGYBLION

### i) Disgyblion sy’n mynychu Ysgol Dyffryn Trannon ar hyn o bryd

Pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, byddai’r newid i gategori iaith yr ysgol yn cael ei gyflwyno fesul cam, gan ddechrau gyda’r Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2022. Byddai pob disgybl sy’n derbyn darpariaeth cyfrwng Saesneg yn Ysgol Dyffryn Trannon ar hyn o bryd yn gallu parhau i dderbyn y ddarpariaeth hon nes gadael yr ysgol. Felly, rhagwelir mai bach iawn fyddai’r effaith ar ddisgyblion sy’n mynychu Ysgol Dyffryn Trannon ar hyn o bryd.

### ii) Disgyblion sy’n mynychu ysgolion eraill ar hyn o bryd

Ni ragwelir y byddai gweithredu’r cynnig yn cael unrhyw effaith ar ddisgyblion sy’n mynychu ysgolion cynradd eraill yn yr ardal. Er ei bod yn bosibl y gallai rhai disgyblion ddewis mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg eraill yn hytrach na defnyddio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Dyffryn Trannon, rhagwelir y byddai’r niferoedd yn gymharol fach, ac felly ni fyddai’r effaith ar ddisgyblion yn yr ysgolion hyn yn sylweddol.

Ni ragwelir y byddai gweithredu’r cynnig yn cael unrhyw effaith ar ddisgyblion sy’n mynychu ysgolion uwchradd yn yr ardal.

## 13. YR EFFAITH AR STAFF

Mae mwyafrif staff Ysgol Dyffryn Trannon yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Er nad yw rhai aelodau o staff yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, byddai cyflwyno’r model addysgu ieithyddol newydd yn raddol yn rhoi cyfle i’r staff hyn wella a datblygu eu sgiliau Cymraeg eu hunain.

## 14. YR EFFAITH AR DREFNIADAU LLYWODRAETHU

Ni fyddai gweithredu’r cynnig yn arwain at newidiadau i drefniadau llywodraethu yn yr ysgol.

## 15. YR EFFAITH AR DDARPARIAETH BLYNYDDOEDD CYNNAR

Mae Cylch Meithrin Trannon yn cynnig darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant cyn-ysgol ar safle’r ysgol.

Ni fyddai gweithredu’r cynnig i newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon yn cael unrhyw effaith ar y ddarpariaeth yma.

## 16. YR EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU MEWN ADDYSG

### i) Safonau, lles ac agweddau at ddysgu

**Safonau a chynnydd cyffredinol, o ran grwpiau penodol ac o ran sgiliau**

Mae'r Cyngor yn disgwyl i newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon gael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth, safonau a chynnydd disgyblion yn gyffredinol. Wrth i'r newid gael ei gyflwyno fesul cam, mae'r Cyngor yn disgwyl y byddai gweithredu yn arwain at ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol ac effeithlon oherwydd na fyddai angen i'r ysgol ddyblygu'r ddarpariaeth mwyach, a fyddai, yn ei thro, yn sicrhau gwell cyfleoedd i ddysgwyr o bob oedran.

Rhagwelir y byddai newid categori iaith yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth, safonau a chynnydd cyffredinol pob disgybl, gan gynnwys disgyblion sy'n perthyn i grwpiau penodol megis Saesneg fel Iaith Ychwanegol, disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, Plant sy'n Derbyn Gofal, a disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Rhagwelir hefyd y byddai newid categori iaith yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau pob disgybl, yn enwedig sgiliau Cymraeg, oherwydd y byddai'n galluogi pob disgybl i fod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddai gweithredu fel ysgol un ffrwd yn galluogi'r ysgol i dargedu cymorth ar draws pob cyfnod o addysg yn fwy effeithiol.

**Lles ac agweddau tuag at ddysgu**

Byddai newid categori iaith yr ysgol yn golygu y byddai pob disgybl yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg lawn yn y pen draw. Byddai hyn yn golygu y byddai'r holl ddisgyblion yn cael eu haddysgu gyda'i gilydd, gan sicrhau gwell cydlyniad ar draws yr ysgol ac effeithio'n gadarnhaol ar les disgyblion.

**ii) Profiadau dysgu ac addysgu**

**Ansawdd yr addysgu**

Mae'r Cyngor yn disgwyl y byddai newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon yn arwain at welliannau yn ansawdd yr addysgu yn yr ysgol, oherwydd y cyfleoedd datblygu proffesiynol a chydweithredu cyfrwng Cymraeg gwell y gellid eu cynnig i'r staff, megis cydweithio ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill ym Mhowys ac mewn awdurdodau lleol a rhanbarthau addysgol eraill i rannu arferion gorau mewn addysgeg.

Gallai wella gallu athrawon i ddatblygu'n systematig wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau presennol disgyblion hefyd ac i ddarparu ystod addas o brofiadau i'r disgyblion er mwyn datblygu eu diddordeb a'u sgiliau llythrennedd ar draws ystod o bynciau a meysydd dysgu.

**Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm**

Rhagwelir y byddai newid categori iaith yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm yn yr ysgol. Pe byddai hyn yn cael ei weithredu, byddai'r ysgol yn gallu canolbwyntio ar ddarparu mewn un cyfrwng iaith, a ddylai gael effaith gadarnhaol ar y cwricwlwm y gellid ei ddarparu, gan sicrhau bod y cwricwlwm yn bodloni gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru, fel yr amlinellir yn 'Cenhadaeth ein Cenedl'.

**Darparu sgiliau**

Rhagwelir y byddai newid categori iaith yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau llythrennedd pob disgybl, trwy well cyfleoedd i rannu adnoddau ac arbenigedd staff ar draws pob ystod oedran, a thrwy'r gallu i dargedu ar draws pob cyfnod addysg.

Yn benodol, byddai'r newid yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau Cymraeg, oherwydd y byddai pob disgybl yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan alluogi pob disgybl i fod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddai'r newid hefyd yn galluogi'r ysgol i wella sgiliau Cymraeg mewn gweithgareddau addysgu ffurfiol ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

**iii) Cymorth, gofal ac arweiniad**

Byddai gweithredu fel ysgol un ffrwd yn galluogi'r ysgol i wella ei gwaith o olrhain a monitro disgyblion.

Mae'r Cyngor yn disgwyl y byddai newid categori iaith yr ysgol yn galluogi'r ysgol i wella ei darpariaeth ymhellach er mwyn paratoi disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig, i fod yn ddinasyddion gweithgar, er enghraifft trwy wneud penderfyniadau am fywyd a gwaith yr ysgol.

Byddai hefyd yn cefnogi i ba raddau mae darpariaeth yr ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru, y gymuned leol a'r byd ehangach.

**iv) Arwain a rheoli**

**Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau**

Rhagwelir y byddai newid categori iaith yr ysgol yn arwain at welliannau o ran arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol. Byddai'r newid arfaethedig yn helpu'r ysgol i sefydlu sail resymegol glir a strategol ar gyfer y cwricwlwm o ran ei fanteision i ddisgyblion wrth eu paratoi i ddysgu drwy gydol eu hoes ac i chwarae rhan lawn mewn cymdeithas. Byddai hefyd yn cefnogi i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn bwrpasol ac yn llwyddiannus wrth gyflawni'r

flaenoriaeth genedlaethol i ddarparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Byddai gweithredu fel ysgol un ffrwd yn galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon, a byddai gan arweinwyr a rheolwyr fwy o amser i ganolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth effeithiol ar draws yr ysgol.

**Dysgu proffesiynol**

Gallai newid categori iaith yr ysgol ddarparu gwell cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff trwy gynnig mwy o gyfleoedd i gydweithio ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill ledled Cymru.

**Defnyddio adnoddau**

Pe byddai'r newid yn cael ei weithredu, byddai'r ysgol yn dod yn ysgol cyfrwng Cymraeg un ffrwd yn y pen draw ac yn cael ei hariannu felly. Fel ysgol Cyfrwng Cymraeg, byddai'r ysgol yn gallu gweithredu'n fwy effeithlon, oherwydd na fyddai angen dyblygu'r ddarpariaeth.

**v) Yr effaith ar grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)**

Nodir, pe byddai'r ysgol yn symud ar hyd y continwwm iaith, gallai fod effaith negyddol ar ddisgyblion ag ADY sy'n dod o deuluoedd lle siaredir prin iawn o Gymraeg, neu ddim o gwbl. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol ddarparu lefel uwch o gymorth i'r disgyblion hyn er mwyn diwallu eu hanghenion.

**vi) Gallu'r ysgol(ion) sy'n destun y cynigion i addysgu'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen a phob cyfnod allweddol o addysg, gan gynnwys ansawdd addysgu'r cwricwlwm ac i ba raddau y mae strwythur neu faint yr ysgol yn effeithio ar hyn**

Rhagwelir y byddai newid categori iaith yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar y gallu i addysgu'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen a phob cyfnod allweddol o addysg, oherwydd na fyddai angen dyblygu darpariaeth mewn dwy ffrwd mwyach.

Mae'n bosibl y gallai fod rhai heriau yn ystod y cyfnod pontio oherwydd byddai angen i'r ysgol ddarparu ar gyfer niferoedd is o ddisgyblion cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, pe byddai'r newid i gategori iaith yr ysgol yn cael ei weithredu, byddai'r Cyngor yn parhau i gefnogi'r ysgol drwy gydol y cyfnod pontio i sicrhau y darperir cwricwlwm priodol i bob disgybl.

**vii) Yr effaith ar allu'r ysgol i addysgu'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen a phob cyfnod allweddol, gan gynnwys ansawdd addysgu'r**

**cwricwlwm ac i ba raddau y mae strwythur neu faint yr ysgol yn effeithio ar hyn**

Rhagwelir y byddai newid categori iaith yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar y gallu i addysgu'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen a phob cyfnod allweddol o addysg, oherwydd na fyddai angen dyblygu darpariaeth mewn dwy ffrwd mwyach.

Mae'n bosibl y gallai fod rhai heriau yn ystod y cyfnod pontio oherwydd byddai angen i'r ysgol ddarparu ar gyfer niferoedd is o ddisgyblion cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, pe byddai'r newid i gategori iaith yr ysgol yn cael ei weithredu, byddai'r Cyngor yn parhau i gefnogi'r ysgol drwy gydol y cyfnod pontio i sicrhau y darperir cwricwlwm priodol i ddisgyblion ym mhob cyfnod allweddol.

**viii) Yr effaith ar ysgolion eraill**

Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar ysgolion eraill. Mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion yn dewis defnyddio darparwyr cyfrwng Saesneg eraill yn hytrach na derbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Dyffryn Trannon, felly mae'n bosibl y bydd cynnydd yn nifer y disgyblion yn yr ysgolion hyn. Fodd bynnag, mae'r niferoedd yn debygol o fod yn gymharol fach, felly ni ragwelir y byddai'r effaith yn sylweddol.

## 17. YR ANGEN AM LEOEDD A'R EFFAITH AR Y LLEOEDD SYDD AR GAEL A HYGYRCHEDD YSGOLION

**i) A fydd gan y ddarpariaeth amgen ddigon o gapasiti ac a fydd yn darparu lleoedd o ansawdd cystal neu well ar gyfer niferoedd presennol ac amcanol y disgyblion?**

Ni ragwelir y byddai'r dewis a ffefrir yn effeithio ar gapasiti'r ysgol na niferoedd amcanol y disgyblion.

Mae'n bosibl y gallai newid categori iaith yr ysgol gael rhywfaint o effaith ar niferoedd disgyblion, pe byddai disgyblion o'r ardal leol yn dewis mynychu darparwyr cyfrwng Saesneg eraill. Fodd bynnag, mae'n bosibl hefyd y gallai newid categori iaith yr ysgol arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion, oherwydd gallai mwy o ddisgyblion ddewis mynychu'r ysgol er mwyn derbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**ii) A yw'r ddarpariaeth amgen yn ddigonol i fodloni'r galw presennol ac amcanol ar gyfer ysgolion o'r un categori iaith a'r cymeriad crefyddol dynodedig (os yw hynny'n berthnasol)?**

Mae digon o ddarpariaeth i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ar gyfer disgyblion sy'n dymuno defnyddio darpariaeth cyfrwng Saesneg, mae darpariaeth cyfrwng Saesneg amgen ar

gael yn y dalgylch yn Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes, Ysgol Gynradd Gymunedol Caersws ac Ysgol Gynradd Gymunedol Llandinam.

Nid oes gan yr ysgol gymeriad crefyddol – byddai hyn yn parhau i fod yn wir yn dilyn unrhyw newid i'r categori iaith.

**iii) Beth fydd natur teithiau i ddarpariaeth amgen ac amseroedd teithio canlyniadol ar gyfer disgyblion, gan gynnwys disgyblion ag AAA?**

Byddai'r cynllun i gyflwyno'r newid arfaethedig i gategori iaith yr ysgol fesul cam yn golygu y byddai holl ddisgyblion presennol yr ysgol yn parhau i allu defnyddio'r ysgol, felly ni fyddai unrhyw effaith ar deithiau i'r ysgol nac amseroedd teithio.

Pe byddai disgyblion yn dewis mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg mewn lleoliadau eraill yn hytrach na'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Dyffryn Trannon, byddai cynnydd mewn teithiau / amseroedd teithio, er mwyn cael mynediad i'r ddarpariaeth yma.  Fodd bynnag, mae yna dair ysgol cyfrwng Saesneg yn nalgylch Llanidloes.  Mae dwy o'r ysgolion yma wedi eu lleoli o fewn 5 milltir i Ysgol Dyffryn Trannon, felly ni fyddai teithiau / amsereodd teithio i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg amgen yn ormodol.

**iv) A oes tystiolaeth o angen/galw am leoedd ychwanegol yn yr ardal ar hyn o bryd neu yn y dyfodol?**

Mae amcanestyniadau diweddaraf y disgyblion a gafwyd gan y Cyngor yn awgrymu y bydd gostyngiad bach yn nifer y disgyblion yn ystod y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, pe byddai cynnydd yn nifer y disgyblion yn y dyfodol, mae digon o gapasiti yn yr ysgol i ddarparu ar gyfer cynnydd yn nifer y disgyblion.

Bu gostyngiad yn y galw ar gyfer darpariaeth cyfrwng Saesneg yn Ysgol Dyffryn Trannon dros y blynyddoedd diwethaf – ar hyn o bryd does yr un disgybl yn mynychu'r Dosbarth Derbyn na Blwyddyn 1.

**v) A fydd y cynigion yn gwella mynediad i ddisgyblion anabl yn unol â gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?**

Ni fyddai unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol yn effeithio ar fynediad i ddisgyblion anabl yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

## 18. ADNODDU ADDYSG A GOBLYGIADAU ARIANNOL ERAILL

**i) Pa effaith a gaiff y cynigion ar leoedd dros ben yn yr ardal?**

Y bwriad yw cyflwyno'r newid fesul cam gan ddechrau gyda'r grŵp blwyddyn Derbyn a symud drwy'r ysgol fesul blwyddyn wrth i ddisgyblion symud drwy'r

ysgol. Y bwriad yw y byddai pob disgybl presennol yn parhau i fynychu'r ysgol, felly ni fyddai unrhyw effaith ar leoedd dros ben.

Mae'n bosibl y gallai newid categori iaith yr ysgol gael rhywfaint o effaith ar niferoedd disgyblion, pe byddai disgyblion o'r ardal leol yn dewis mynychu darparwyr cyfrwng Saesneg eraill. Fodd bynnag, mae'n bosibl hefyd y gallai newid categori iaith yr ysgol arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion, oherwydd y posibilrwydd y byddai mwy o ddisgyblion yn dewis mynychu'r ysgol er mwyn derbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**ii) A yw'r cynigion yn rhan o Raglen Fuddsoddi Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif yr awdurdod lleol ac yn cyfrannu at ddarparu ysgolion cynaliadwy ar gyfer yr 21$^{ain}$ ganrif ac at reolaeth strategol well o'r ystad yr ysgolion?**

Nid yw'r cynlluniau presennol mewn cysylltiad â chategori iaith Ysgol Dyffryn Trannon yn rhan o Raglen Fuddsoddi Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif yr awdurdod lleol.

**iii) Beth yw costau rheolaidd y cynigion dros gyfnod o 3 blynedd neu fwy, ac a yw'r cyllid rheolaidd angenrheidiol ar gael?**

Nid oes unrhyw gostau rheolaidd yn gysylltiedig â newid categori iaith yr ysgol.

**iv) A fydd costau trafnidiaeth ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r cynnig?**

Y bwriad yw cyflwyno'r newid i gategori iaith yr ysgol fesul cam wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol. Ni ragwelir y byddai costau trafnidiaeth ychwanegol o ganlyniad i'r newid.

**v) Beth yw costau cyfalaf y cynnig ac a yw'r cyllid cyfalaf angenrheidiol ar gael?**

Nid oes unrhyw gostau cyfalaf yn gysylltiedig â newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon.

**vi) Beth yw graddfa unrhyw arbedion net amcanol (gan ystyried refeniw yr ysgol, trafnidiaeth a chostau cyfalaf)?**

Amcangyfrifir y byddai newid categori iaith yr ysgol yn arwain at arbedion refeniw blynyddol i'r Cyngor o ryw £122,000 y flwyddyn, pan fydd yr ysgol yn gwbl un ffrwd.

Ni fyddai unrhyw arbedion yn y flwyddyn gyntaf, ac er y byddai cyfleoedd i arbed arian wrth gyflwyno'r broses fesul cam, byddai hyn yn dibynnu ar niferoedd y disgyblion.

Ni ragwelir yr effeithir ar gostau trafnidiaeth, ac ni fydd unrhyw gostau cyfalaf.

**vii) Heb y cynigion, a fyddai'r ysgolion dan sylw yn wynebu diffygion yn eu cyllidebau?**

Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd gan Ysgol Dyffryn Trannon ddiffyg yn ei chyllideb erbyn 2022/23.

**viii) A fydd unrhyw arbedion mewn costau rheolaidd yn cael eu cadw yng nghyllideb ysgolion leol yr awdurdod lleol?**

Byddai unrhyw arbedion yn cael eu hailfuddsoddi yng nghyllideb gorfforaethol y Cyngor, a byddai unrhyw ailfuddsoddiad yn y system ysgolion yn cael ei gytuno yn rhan o gylch cynllunio blynyddol y gyllideb.

**ix) A fydd enillion o werthu safleoedd segur (derbyniadau cyfalaf) ar gael i dalu costau'r cynnig neu i gyfrannu at gostau cynigion yn y dyfodol a fydd yn hybu rheolaeth effeithiol o leoedd mewn ysgolion?**

Ni fyddai newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon yn arwain at unrhyw dderbyniadau cyfalaf.

**x) Pa effaith fydd y cynigion yn eu cael ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd economaidd difreintiedig?**

Byddai effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd economaidd difreintiedig, oherwydd y byddent yn gallu cymryd rhan mewn cwricwlwm cwbl ddwyieithog o ddechrau eu haddysg.

Yn y dyfodol, byddai angen i unrhyw ddisgyblion yn nalgylch Ysgol Dyffryn Trannon sy'n dymuno mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg fynychu darpariaeth arall, a fyddai'n effeithio ar deithio. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn gobeithio y byddai pob disgybl sy'n byw yn nalgylch Ysgol Dyffryn Trannon yn mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol.

**xi) Unrhyw faterion cydraddoldeb, gan gynnwys y rhai a nodwyd drwy asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb**

Byddai cefnogi'r ysgol i symud ar hyd y continwwm iaith yn cael effaith ar ddisgyblion sy'n perthyn i'r grwpiau nodweddion gwarchodedig, fodd bynnag, ym mwyafrif yr achosion, ni ragwelir y byddai hyn yn effaith negyddol.

Cydnabyddir efallai fod pryder ynglŷn ag effaith newid categori iaith yr ysgol ar ddisgyblion a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol, fodd bynnag, byddai angen i'r ysgol ddarparu cymorth dwys ac arbenigol i'r disgyblion hyn er mwyn sicrhau na fyddant o dan anfantais.

Os bydd y Cyngor yn bwrw ymlaen â'r broses statudol mewn cysylltiad â'r dewis a ffefrir, cynhelir asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a chânt eu

hadolygu'n rheolaidd drwy gydol y broses er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion yn cael eu nodi a'u hystyried yn llawn.

**xii) A yw'r ysgol(ion) dan sylw yn destun unrhyw fuddiannau elusen neu ymddiriedolaeth y gallai'r cynigion effeithio arnynt, er enghraifft mewn cysylltiad â defnyddio neu gael gwared â thir?**

Nid yw Ysgol Dyffryn Trannon yn destun unrhyw fuddiannau elusen nac ymddiriedolaeth y gallai'r cynlluniau i newid categori iaith yr ysgol effeithio arnynt.

## 19. FFACTORAU I'W HYSTYRIED MEWN CYSYLLTIAD Â CHYNIGION I NEWID Y CYFRWNG IAITH

**i) I ba raddau y mae'r ddarpariaeth addysg bresennol gan yr awdurdod lleol drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'r Saesneg yn fwy na'r galw neu'n methu â bodloni'r galw a ragwelir gan rieni am y math hwnnw o ddarpariaeth, a'r cyfraniad y byddai'r cynnig yn ei wneud i unioni'r sefyllfa honno?**

Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg pwrpasol yn nalgylch Llanidloes. Byddai gweithredu'r newid arfaethedig i gategori iaith Ysgol Dyffryn Trannon yn sicrhau bod y math hwn o ddarpariaeth ar gael.

Byddai gweithredu'r newid arfaethedig yn golygu na fyddai addysg drwy gyfrwng y Saesneg ar gael mwyach ym mhentref Trefeglwys. Fodd bynnag, y duedd yn Nhrefeglwys fu cynnydd yn y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, felly mae'r newid arfaethedig yn adlewyrchu hyn. Byddai'r newid arfaethedig hefyd yn sicrhau y byddai'r holl ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Dyffryn Trannon yn gwbl ddwyieithog, gan gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Pe na byddai disgyblion yn dymuno derbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Dyffryn Trannon, mae darparwyr cyfrwng Saesneg eraill ar gael yn nalgylch Llanidloes.

**ii) I ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol?**

Byddai newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon yn cefnogi'r awdurdod lleol i gyflawni'r targedau yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae CSGA cyfredol y Cyngor yn nodi fod y Cyngor yn 'cydnabod mai ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig yw'r model a ffefrir er mwyn darparu addysg cyfrwng Gymraeg', ac yn cynnwys amcan i 'Sefydlu ac adnabod cyfleoedd i sefydlu ysgolion dynodedig cyfrwng Cymraeg newydd yn y sector gynradd.' Mae'r cynnig presennol ar gyfer Dyffryn Trannon yn cydfynd â hyn.

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo'n ddiweddar Strategaeth newydd ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys, sydd yn cynnwys bwriad i 'wella mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod allweddol', a amcan i 'symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith'. Mae'r cynnig presennol ar gyfer Dyffryn Trannon yn cydfynd â hyn.

## 20. ASESIADAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB, Y GYMUNED A'R GYMRAEG

Cynhaliwyd asesiadau drafft o effaith mewn cysylltiad â'r cynnig. Caiff y rhain eu diweddaru yn dilyn y cyfnod ymgynghori er mwyn adlewyrchu unrhyw faterion ychwanegol a godir. Mae'r asesiadau ar gael ar wefan y Cyngor:

https://cy.powys.gov.uk/article/10462/Ysgol-Dyffryn-Trannon

Ceir crynodeb o'r asesiadau isod:

### i) Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai cyfrwng addysg Ysgol Dyffryn Trannon yn newid i Gymraeg. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno fesul cam, fesul blwyddyn, gan ddechrau gyda disgyblion y Dosbarth Derbyn. Ni fyddai unrhyw effaith ar ddisgyblion presennol.

Nod y cynnig yw gwella'r cyfleoedd addysgol a gynigir i bob disgybl yn nalgylch Ysgol Dyffryn Trannon, gan gynnwys disgyblion sy'n perthyn i'r grwpiau nodweddion gwarchodedig.

Nodir pryder posibl ynglŷn ag effaith y cynnig i newid categori iaith yr ysgol i gyfrwng Cymraeg ar unrhyw ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a fydd yn mynychu'r ysgol yn y dyfodol. Er mwyn lliniaru'r pryder hwn, efallai y bydd angen i'r ysgol ddarparu cymorth uwch i ddisgyblion ag ADY yn ôl yr angen er mwyn diwallu eu hanghenion. Bydd y cyfnod ymgynghori yn rhoi cyfle i godi unrhyw bryderon ynglŷn â'r effaith ar ddisgyblion ag ADY, a bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth i'r broses fynd rhagddi.

### ii) Yr effaith ar y gymuned

Gan fod y cynnig yn ymwneud â newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon yn unig, rhagwelir mai bach iawn fydd effaith y cynnig ar y gymuned. Byddai darpariaeth gynradd yn parhau i fod ar gael yn Nhrefeglwys, a byddai cyfleusterau cymunedol sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn parhau i fod ar gael.

Cydnabyddir, yn y pen draw, y byddai'r cynnig yn arwain at deithio ychwanegol i ddisgyblion sy'n dymuno derbyn addysg gynradd cyfrwng Saesneg, fodd bynnag, trwy gyflwyno'r newid i'r categori iaith fesul cam dros nifer o flynyddoedd, y bwriad yw y bydd gan bob disgybl sy'n byw yn y dalgylch y sgiliau Cymraeg angenrheidiol i barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. Felly, dylai nifer y disgyblion sy'n teithio i dderbyn addysg cyfrwng Saesneg fod yn fach.

### iii) Yr effaith ar y Gymraeg

Byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg oherwydd, dros amser, byddai'n sicrhau y bydd pob disgybl yn nalgylch Ysgol Dyffryn Trannon yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus, a chyfrannu at Strategaeth Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**RHAN D – MANYLION YR YMGYNGHORIAD**

**Gyda phwy y byddwn yn ymgynghori?**

Bydd y Cyngor yn ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid fel sy'n ofynnol yn ôl y Cod Trefniadaeth Ysgolion, sy'n cynnwys y canlynol:

- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid Ysgol Dyffryn Trannon
- Llywodraethwyr Ysgol Dyffryn Trannon
- Staff Ysgol Dyffryn Trannon
- Disgyblion Ysgol Dyffryn Trannon
- Awdurdodau yr Eglwys yng Nghymru ac Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Gweinidog Addysg Cymru
- Awdurdodau Lleol Cyfagos
- Cynghorwyr Lleol Powys
- Cynghorau Tref a Chymuned yn yr ardal leol
- Aelod o'r Senedd dros Sir Drefaldwyn ac Aelodau rhanbarthol o'r Senedd dros yr ardal
- Yr AS dros Sir Drefaldwyn
- Estyn
- Undebau llafur athrawon a staff
- ERW
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys
- Darparwyr meithrin yn yr ardal leol
- Mudiad Meithrin
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Powys
- Comisiynydd y Gymraeg

Cynhelir ymgynghoriad â disgyblion yn unol â safonau cenedlaethol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc Cymru[2].

**Y cyfnod ymgynghori**

Bydd y cyfnod ymgynghori yn dechrau ar 25 Chwefror 2021 ac yn dod i ben ar 15 Ebrill 2021.

**Y broses statudol**

Bydd ymgynghoriad ar y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig a ddaeth yn weithredol ar 1 Tachwedd 2018. Crynhoir y broses isod:

**i) Ymgynghoriad**

[2] https://llyw.cymru/safonau-cyfranogiad-cenedlaethol-plant-phobl-ifanc

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 25 Chwefror 2021 ac yn dod i ben ar 15 Ebrill 2021. Caiff sylwadau o'r ymgynghoriad eu coladu a'u crynhoi, a chaiff adroddiad ymgynghori ei lunio a'i rannu â rhanddeiliaid.

Mae'n bwysig nodi na fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig, ac mai dim ond gwrthwynebiadau y gellir eu cofrestru ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori a'r sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, gwneud newidiadau i'r cynnig, neu beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig. Os bydd y Cabinet yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig hwn.

Rhagwelir y bydd y Cabinet yn ystyried yr Adroddiad Ymgynghori yn ystod haf 2021.

### ii) Hysbysiad statudol

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd hysbysiadau statudol yn cael eu cyhoeddi yn dilyn cyfarfod y Cabinet. Yna, bydd cyfnod o 28 diwrnod i bobl gyflwyno gwrthwynebiad ysgrifenedig.

Pe byddai pobl yn gwrthwynebu, byddai'r Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu gan ddarparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cyngor iddynt cyn pen 7 diwrnod, gan ddechrau ar ddiwrnod penderfyniad yr awdurdod lleol. Dim ond gwrthwynebiadau ysgrifenedig a gyflwynir yn ystod y cyfnod rhybudd statudol fydd yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau a'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Ni fydd sylwadau a gyflwynir yn rhan o'r cyfnod ymgynghori yn cael eu cyfrif yn wrthwynebiadau. Pe byddai rhanddeiliaid yn dymuno i'w hymatebion i'r ymgynghoriad gael eu hystyried yn wrthwynebiadau, bydd angen iddynt eu hailgyflwyno'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod rhybudd statudol.

Byddai adroddiad ychwanegol yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor, a bydd yn ei ystyried ochr yn ochr â'r adroddiad gwrthwynebu, er mwyn penderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynnig ai peidio.

Rhagwelir y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud erbyn diwedd mis Medi 2021.

### iii) Gweithredu

Pe byddai Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig, byddai'n cael ei weithredu yn unol â'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad statudol neu unrhyw ddyddiad diwygiedig dilynol.

**Sut i ymateb i'r ymgynghoriad**

Mae ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ynghlwm wrth y ddogfen hon. Mae fersiwn ar-lein ar gael hefyd ar wefan y Cyngor:

https://cy.powys.gov.uk/article/10462/Ysgol-Dyffryn-Trannon

Fel arall, gallwch ymateb yn ysgrifenedig.

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ac ymatebion ysgrifenedig eraill i'r cyfeiriad canlynol:

*Y Tîm Trawsnewid Addysg, Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, LD1 5LG*

*E-bost: school.consultation@powys.gov.uk*

Dylid derbyn pob gohebiaeth erbyn **15 Ebrill 2021**.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill am y cynnig hwn, gallwch gysylltu â'r Tîm Trawsnewid Addysg gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, neu drwy ffonio (01597) 826618.

## ATODIAD A – DATA ALLWEDDOL

### 1. Ysgol Dyffryn Trannon

Ceir gwybodaeth isod am Ysgol Dyffryn Trannon.

| | Math o Ysgol | Categori Iaith | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Dyffryn Trannon** | Ysgol Gynradd Gymunedol<br><br>Cyngor Sir Powys sy'n berchen ar adeilad yr ysgol | Dwy Ffrwd | 20 |

**Niferoedd Disgyblion**

### i) Niferoedd y disgyblion cyfredol[3]

| | D | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrwng Cymraeg | 11 | 15 | 13 | 16 | 12 | 21 | 9 | 97 |
| Cyfrwng Saesneg | 0 | 0 | 1 | 1 | 4 | 2 | 4 | 12 |
| Cyfanswm | 11 | 15 | 14 | 17 | 16 | 23 | 13 | 109 |

### ii) Niferoedd disgyblion hanesyddol[4]

| | Ionawr 2014 | Ionawr 2015 | Ionawr 2016 | Ionawr 2017 | Ionawr 2018 | Ionawr 2019 | Ionawr 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Dyffryn Trannon** | 124 | 118 | 122 | 138 | 121 | 125 | 129 |

### iii) Niferoedd amcanol y disgyblion (Cyfradd geni)[5]

| | Ionawr 2021[6] | Ionawr 2022 | Ionawr 2023 | Ionawr 2024 | Ionawr 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Dyffryn Trannon** | 116 | 111 | 101 | 99 | 94 |

[3] Nifer ar y gofrestr Cyllid – Diwrnod Cyfrif Disgyblion 2020 (6 Tachwedd 2020)
[4] CYBLD 2020
[5] Amcanestyniadau Gwasanaeth Ysgolion Powys (Derbyn – Blwyddyn 6) ar sail CYBLD 2020 a Chyfraddau Geni
[6] Dyma'r niferoedd amcannol yn seiliedig ar wybodaeth CYBLD 2020, felly maent yn cynnwys niferoedd amcannol ar gyfer Ionawr 2021. Nid yw CYBLD 2021 a'r niferoedd amcannol yn seiliedig ar CYBLD 2021 ar gael eto.

### iv) Niferoedd amcanol y disgyblion (Amcanestyniadau cyllid)[7]

| | Ionawr 2021 | Ionawr 2022 | Ionawr 2023 | Ionawr 2024 | Ionawr 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Dyffryn Trannon** | 109 | 106 | 93 | N/A | N/A |

## Capasiti a Chyflwr yr Adeilad

### i) Capasiti

Mae'r tabl canlynol yn rhoi gwybodaeth am gapasiti presennol yr ysgol:

| | Capasiti Presennol | Wedi'i ddefnyddio ar hyn o bryd | Capasiti Dros Ben |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Dyffryn Trannon** | 170 | 109 (64.1%) | 61 (35.9%) |

### ii) Cyflwr yr adeilad

Yn 2009, cynhaliodd Llywodraeth Cymru asesiadau o gyflwr ac addasrwydd yr ysgol.

| | Cyflwr | Addasrwydd | Mynediad i neuadd ar y safle |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Dyffryn Trannon** | B<br><br>Da | B<br><br>Da | Oes |

## Safonau Addysg

### i) Estyn

| | Ysgol Dyffryn Trannon |
|---|---|
| **Dyddiad yr Arolygiad** | Chwefror 2017 |
| **Safonau** | Digonol |
| **Lles** | Da |
| **Profiadau Dysgu** | Digonol |
| **Addysgu** | Da |

[7] Amcanestyniadau Cyllid Powys ar sail data a ddarparwyd gan yr ysgol – Tachwedd 2020

| | |
|---|---|
| **Cymorth, Gofal ac Arweiniad** | Da |
| **Yr Amgylchedd Dysgu** | Da |
| **Arweinyddiaeth** | Da |
| **Gwella Ansawdd** | Digonol |
| **Gweithio mewn Partneriaeth** | Da |
| **Rheoli Adnoddau** | Digonol |
| **Y Canlyniad** | Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol. |

**ii) Categori'r Ysgol[8]**

| | Grŵp Safonau | Capasiti Gwella | Capasiti Cymorth |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Dyffryn Trannon** | Amherthnasol | D | Coch |

<u>**Gwybodaeth ariannol**</u>

**i) Cost fesul disgybl[9] (Adran 52 o'r Datganiad Cyllideb, 2020/2021)**

| | Cyfran o'r gyllideb fesul ysgol | Cyfran o'r gyllideb fesul disgybl | Cyllideb AAA dybiannol | Cyllid nad yw'n Gyllideb Ysgolion Unigol a datganolwyd i'r ysgol |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Dyffryn Trannon** | £549,0000 | £4,650 | £24,000 | £5,000 |
| **Cyfartaledd Powys (Cynradd)** | Amherthnasol | £4,264 | Amherthnasol | Amherthnasol |

<u>**Gwybodaeth am Gydraddoldeb**</u>

**i) Prydau Ysgol am Ddim[10]**

[8] 2019
[9] Adran 52 o Ddatganiad Cyllideb 2020/2021
[10] CYBLD 2020

| | Nifer y disgyblion a gafodd bryd ysgol am ddim ar ddiwrnod y Cyfrifiad |
|---|---|
| Ysgol Dyffryn Trannon | 7 (5.4%) |

### ii) Disgyblion mewn gofal[11]

| | Nifer y disgyblion mewn gofal |
|---|---|
| Ysgol Dyffryn Trannon | 0 |

### iii) AAA/ADY[12]

| | Gweithredu gan yr Ysgol | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | Datganiad |
|---|---|---|---|
| Ysgol Dyffryn Trannon | 15 (11.6%) | 1 (0.8%) | 0 (0%) |

## 2. Ysgolion eraill a allai gael eu heffeithio

Gan mai'r cynnig yw i gyflwyno'r newid i gategori iaith Ysgol Dyffryn Trannon yn raddol, ni fyddai angen i unrhyw ddisgyblion presennol drosglwyddo i ysgolion eraill. Fodd bynnag, os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion yn dewis mynychu ysgolion eraill i gael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn y dyfodol, yn lle cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Dyffryn Trannon.

Er mai'r disgwyliad yw y byddai nifer y disgyblion yn fach, ac felly ni fyddai'r effaith ar yr ysgolion hyn yn arwyddocaol, mae gwybodaeth am ysgolion a allai gael eu heffeithio yn y dyfodol wedi'i ddarparu isod:

| | Math o Ysgol | Categori Iaith | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes** | Ysgol Gynradd Gymunedol<br><br>Cyngor Sir Powys sydd berchen ar adeilad yr ysgol | Cyfrwng Saesneg | 38 |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Caersws** | Ysgol Gynradd Gymunedol<br><br>Cyngor Sir Powys sydd berchen ar adeilad yr ysgol | Cyfrwng Saesneg | 14 |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llandinam** | Ysgol Gynradd Gymunedol<br><br>Cyngor Sir Powys sydd berchen ar adeilad yr ysgol | Cyfrwng Saesneg | 7 |

[11] CYBLD 2020
[12] CYBLD 2020

## Niferoedd Disgyblion

### i) Niferoedd y disgyblion cyfredol[13]

| | R | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes** | 48 | 38 | 50 | 26 | 48 | 43 | 37 | 290 |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Caersws** | 8 | 11 | 13 | 6 | 6 | 6 | 6 | 56 |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llandinam** | 8 | 5 | 1 | 5 | 6 | 4 | 5 | 34 |

### ii) Niferoedd disgyblion hanesyddol[14]

| | Ionawr 2014 | Ionawr 2015 | Ionawr 2016 | Ionawr 2017 | Ionawr 2018 | Ionawr 2019 | Ionawr 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes** | 306 | 312 | 290 | 308 | 283 | 288 | 288 |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Caersws** | 82 | 68 | 54 | 42 | 55 | 55 | 68 |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llandinam** | 57 | 57 | 54 | 52 | 47 | 49 | 47 |

### iii) Niferoedd amcanol y disgyblion (Cyfradd geni)[15]

[13] Nifer ar y gofrestr Cyllid – Diwrnod Cyfrif Disgyblion 2020 (6 Tachwedd 2020)
[14] CYBLD 2020
[15] Amcanestyniadau Gwasanaeth Ysgolion Powys (Derbyn – Blwyddyn 6) ar sail CYBLD 2020 a Chyfraddau Geni

| | Ionawr 2021[16] | Ionawr 2022 | Ionawr 2023 | Ionawr 2024 | Ionawr 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes** | 282 | 277 | 276 | 266 | 272 |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Caersws** | 52 | 52 | 54 | 57 | 56 |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llandinam** | 27 | 25 | 24 | 21 | 20 |

### iv) Niferoedd amcanol y disgyblion (Amcaniadau cyllid)[17]

| | Ionawr 2021 | Ionawr 2022 | Ionawr 2023 | Ionawr 2024 | Ionawr 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes** | 290 | 293 | 290 | N/A | N/A |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Caersws** | 56 | 56 | 56 | N/A | N/A |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfyllin** | 34 | 35 | 37 | N/A | N/A |

## Capasiti a Chyflwr yr Adeiladau

### i) Capasiti

Mae'r tabl canlynol yn rhoi gwybodaeth am gapasiti presennol yr ysgolion:

| | Capasiti Presennol | Wedi'i ddefnyddio ar hyn o bryd | Capasiti Dros Ben |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes** | 269 | 290 | -21 (7.8%) |

[16] Dyma'r niferoedd amcannol yn seiliedig ar wybodaeth CYBLD 2020, felly maent yn cynnwys niferoedd amcannol ar gyfer Ionawr 2021. Nid yw CYBLD 2021 a'r niferoedd amcannol yn seiliedig ar CYBLD 2021 ar gael eto.
[17] Amcanestyniadau Cyllid Powys ar sail data a ddarparwyd gan yr ysgol – Tachwedd 2020

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Caersws** | 102 | 56 | 46 (45.1%) |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llandinam** | 53 | 34 | 19 (35.8%) |

**ii) Cyflwr yr adeiladau**

Yn 2009, cynhaliodd Llywodraeth Cymru asesiadau o gyflwr ac addasrwydd yr ysgolion.

| | Cyflwr | Addasrwydd | Mynediad i neuadd ar y safle |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes** | C | B | Oes |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Caersws** | B | B | Oes |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llandinam** | C | C | Oes |

**<u>Safonau Addysg</u>**

**i) Estyn**

| | Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes |
|---|---|
| **Dyddiad yr arolygiad** | Ionawr 2014 |
| **Safonau** | Da |
| **Lles** | Digonol |
| **Profiadau Dysgu** | Da |
| **Addysgu** | Da |
| **Cymorth, Gofal ac Arweiniad** | Da |
| **Yr Amgylchedd Dysgu** | Da |

| | |
|---|---|
| **Arweinyddiaeth** | Da |
| **Gwella Ansawdd** | Digonol |
| **Gweithio mewn Partneriaeth** | Da |
| **Rheoli Adnoddau** | Da |
| **Y Canlyniad** | Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu a'r awdurdod lleol yn monitor cynnydd. |

| | **Ysgol Gynradd Gymunedol Caersws** |
|---|---|
| **Dyddiad yr Arolygiad** | Ebrill 2013 |
| **Safonau** | Digonol |
| **Lles** | Da |
| **Profiadau Dysgu** | Digonol |
| **Addysgu** | Digonol |
| **Cymorth, Gofal ac Arweiniad** | Digonol |
| **Yr Amgylchedd Dysgu** | Da |
| **Arweinyddiaeth** | Digonol |
| **Gwella Ansawdd** | Digonol |
| **Gweithio mewn Partneriaeth** | Da |
| **Rheoli Adnoddau** | Digonol |
| **Y Canlyniad** | Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu ac Estyn yn monitro cynnydd. Daeth monitro gan Estyn i ben ym mis Mehefin 2014. |

| | **Ysgol Gynradd Gymunedol Llandinam** |
|---|---|
| **Dyddiad yr Arolygiad** | Mai 2013 |
| **Safonau** | Da |
| **Lles** | Da |
| **Profiadau Dysgu** | Da |
| **Addysgu** | Da |

| | |
|---|---|
| **Cymorth, Gofal ac Arweiniad** | Da |
| **Yr Amgylchedd Dysgu** | Da |
| **Arweinyddiaeth** | Da |
| **Gwella Ansawdd** | Da |
| **Gweithio mewn Partneriaeth** | Da |
| **Rheoli Adnoddau** | Da |
| **Y Canlyniad** | Yr ysgol i baratoi cynllun gweithredu er mwyn dagos sut y bydd yn ymateb i'r argymhellion. |

### ii) Categori'r Ysgol[18]

| | **Grwp Safonau** | **Capasiti Cymorth** |
|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes** | Amherthnasol | Melyn |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Caersws** | Amherthnasol | Oren |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llandinam** | Amherthnasol | Gwyrdd |

<u>**Gwybodaeth ariannol**</u>

### i) Cost fesul disgybl[19] (Adran 52 o'r Datganiad Cyllideb, 2020/2021)

| | **Cyfran o'r gyllideb fesul ysgol** | **Cyfran o'r gyllideb fesul disgybl** | **Cyllideb AAA dybiannol** | **Cyllid nad yw'n Gyllideb Ysgolion Unigol a datganolwyd i'r ysgol** |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes** | £1,033,000 | £3,613 | £101,000 | £52,000 |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Caersws** | £264,000 | £4,711 | £14,000 | £8,000 |

[18] 2019
[19] Adran 52 o Ddatganiad Cyllideb 2020/2021

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llandinam** | £199,000 | £7,098 | £16,000 | £7,000 |
| **Cyfartaledd Powys (Cynradd)** | Amherthnasol | £4,264 | Amherthnasol | Amherthnasol |

<u>**Gwybodaeth am Gydraddoldeb**</u>

**i) Prydau Ysgol am Ddim[20]**

| | Nifer y disgyblion a gafodd bryd ysgol am ddim ar ddiwrnod y Cyfrifiad |
|---|---|
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes** | 14.9% |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Caersws** | 16.2% |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llandinam** | 2.1% |

**ii) Disgyblion mewn gofal[21]**

| | Nifer y disgyblion mewn gofal |
|---|---|
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes** | 0 |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Caersws** | 0 |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llandinam** | 0 |

**iii) AAA/ADY[22]**

| | Gweithredu gan yr Ysgol | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | Datganiad |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes** | 12.2% | 13.5% | 0.3% |

[20] CYBLD 2020
[21] CYBLD 2020
[22] CYBLD 2020

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Caersws** | 11.8% | 4.4% | 1.5% |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Llandinam** | 17.0% | 2.1% | 0.0% |

**ATODIAD B – DADANSODDIAD CRYFDERAU, GWENDIDAU, CYFLEOEDD A BYGYTHIADAU (SWOT) A FFACTORAU LLWYDDIANT CRITIGOL**

## 1. DADANSODDIADAU SWOT

Ceir dadansoddiadau SWOT isod ar gyfer y tri dewis hyn a nodwyd yn adran 6:

**Dewis 1: Y sefyllfa bresennol – Mae Ysgol Dyffryn Trannon yn parhau i weithredu fel ysgol dwy ffrwd**

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| - Dim effaith ar ddisgyblion, rhieni na staff<br>- Dim teithio ychwanegol i ddisgyblion<br>- Dim effaith ar niferoedd y disgyblion yn Ysgol Dyffryn Trannon<br>- Dim effaith ar staff Ysgol Dyffryn Trannon<br>- Dim angen am broses statudol | - Nid yw’n galluogi Ysgol Dyffryn Trannon i weithredu’n fwy effeithlon<br>- Nid yw rhai disgyblion yn datblygu’n gwbl ddwyieithog<br>- Niferoedd bach yn debygol o barhau yn y ffrwd cyfrwng Saesneg<br>- Nid yw’n darparu darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ddynodedig yn nalgylch Llanidloes<br>- Nid yw’n cyflawni nodau ac amcanion Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| | - Niferoedd bach parhaus yn y ffrwd cyfrwng Saesneg |

**Dewis 2: Newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon i gyfrwng Cymraeg**

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| - Byddai’n galluogi’r ysgol i weithredu’n fwy effeithlon fel ysgol un ffrwd<br>- Byddai pob disgybl yn yr ysgol yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn datblygu sgiliau dwyieithog<br>- Y potensial i gynyddu nifer y disgyblion sy’n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg<br>- Gellid cynnig mwy o gyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg<br>- Gwella sgiliau Cymraeg disgyblion drwy well ethos Cymraeg | - Mae’n bosibl y bydd disgyblion yn dewis mynychu ysgolion eraill er mwyn derbyn darpariaeth cyfrwng Saesneg<br>- Gallai fod yn amhoblogaidd ymhlith rhai aelodau o’r gymuned leol<br>- Yr effaith ar staff di-Gymraeg |

| | |
|---|---|
| - Byddai'n sicrhau y byddai pob disgybl yn cael ei addysgu mewn grwpiau blwyddyn o faint priodol<br>- Arbedion ariannol bach posibl i'r awdurdod | |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| - Cyfle i hyrwyddo ymhellach y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael er mwyn denu mwy o ddisgyblion i dderbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg | - Effaith bosibl ar niferoedd y disgyblion pe byddai disgyblion yn dewis mynychu ysgolion eraill er mwyn derbyn darpariaeth cyfrwng Saesneg |

**Dewis 3: Newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon i gyfrwng Saesneg**

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| - Byddai'n galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon fel ysgol un ffrwd<br>- Arbedion ariannol bach posibl i'r awdurdod | - Ni fyddai darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn y dalgylch<br>- Ni fyddai'n denu disgyblion o Lanidloes sy'n teithio i Drefeglwys i dderbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg<br>- Nid yw'n adlewyrchu dewisiadau rhieni / tueddiadau presennol y disgyblion<br>- Mae nifer y disgyblion cyfrwng Saesneg yn yr ysgol yn isel iawn ar hyn o bryd<br>- Mae'n debygol o fod yn amhoblogaidd ymhlith rhai aelodau o'r gymuned leol<br>- Ni fyddai'n darparu darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ddynodedig yn nalgylch Llanidloes<br>- Nid yw'n cyflawni nodau ac amcanion Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys<br>- Nid yw'n bodloni dyhead Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| - Cyfle i gynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Saesneg | - Gostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion oherwydd na fyddai disgyblion o Lanidloes yn gymwys i gael trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol mwyach |

| | |
|---|---|
| | |

## 2. FFACTORAU LLWYDDIANT CRITIGOL

Aseswyd y dewisiadau hefyd o’u cymharu â’r Ffactorau Llwyddiant Critigol canlynol:

| Ffactor Llwyddiant Critigol | Disgrifiad |
|---|---|
| 1 – Cyweddu strategol ac anghenion busnes | • Mae’n rhaid i’r dewis gyd-fynd â Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys 2020-2030, i gynnwys y canlynol:<br>- Mynd i’r afael â’r heriau i addysg ym Mhowys, fel yr amlinellir yn Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys 2020-2030<br>- Sicrhau cysondeb â’r Weledigaeth a’r Egwyddorion Arweiniol a amlinellir yn Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys 2020-2030<br>- Sicrhau cysondeb â’r Nodau a’r Amcanion Strategol a amlinellir yn Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys 2020-2030<br>• Mae’n rhaid i’r dewis sicrhau’r buddion gorau o Raglen Trawsnewid Addysg y Cyngor |
| 2 – Gwerth am arian | • Mae’n rhaid i’r dewis wneud y defnydd gorau o’r adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysgu<br>• Mae’n rhaid i’r dewis ddarparu gwerth am arian wrth addysgu |
| 3 – Posibilrwydd o gyflawni | • Mae’n rhaid i’r dewis fod yn bosibl ei gyflawni o fewn y ddeddfwriaeth gyfredol<br>• Mae’n rhaid i’r dewis fod yn bosibl ei gyflawni yn weithredol<br>• Mae’n rhaid i’r dewis fod yn bosibl ei gyflawni yn ffisegol |
| 4 – Fforddiadwyedd posibl | • I ba raddau y mae’r dewis yn fforddiadwy o fewn refeniw disgwyliedig y Cyngor<br>• I ba raddau y mae’r dewis yn fforddiadwy o fewn y cyllid cyfalaf y rhagwelir sydd ar gael i’r Cyngor |

Aseswyd pob dewis o’i gymharu â’r Ffactorau Llwyddiant Critigol ar sail y meini prawf canlynol:

✓ – Yn bodloni    ? – Gallai fodloni    x – Nid yw’n bodloni

Mae’r asesiad ar gyfer pob dewis fel a ganlyn:

| | **Dewis 1** | **Dewis 2** | **Dewis 3** |
|---|---|---|---|
| 1 – Cyweddu strategol ac anghenion busnes | x | ✓ | x |
| 2 – Gwerth am arian | x | ✓ | ? |
| 3 – Posibilrwydd o gyflawni | ✓ | ✓ | x |
| 5 – Fforddiadwyedd posibl | ✓ | ✓ | ? |
| **Cyfanswm ✓** | 2 | 4 | 0 |
| **Cyfanswm x** | 0 | 0 | 2 |
| **Y Canlyniad** | Diystyru | **Ffefrir** | Diystyru |

**ATODIAD C – RHESYMAU PAM NA CHAFODD YR OPSIYNAU ERAILL EU DWYN YMLAEN**

| Opsiwn | Disgrifiad | Rhesymau am ddiystyru |
|---|---|---|
| 1 | Dim newid – Ysgol Dyffryn Trannon yn parhau i weithredu fel ysgol dwy ffrwd | - Nid yw'n galluogi Ysgol Dyffryn Trannon i weithredu'n fwy effeithlon<br>- Nid yw rhai disgyblion yn datblygu'n gwbl ddwyieithog<br>- Niferoedd bach yn debygol o barhau yn y ffrwd cyfrwng Saesneg<br>- Nid yw'n darparu darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ddynodedig yn nalgylch Llanidloes<br>- Byddai'n arwain at niferoedd bach parhaus yn y ffrwd Saesneg<br>- Nid yw'n cyflawni nodau ac amcanion Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys<br>- Nid yw'n cwrdd â'r holl Ffactorau Llwyddiant Allweddol |
| 2 | Newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon i gyfrwng Cymraeg | Amherthnasol – Hwn yw'r opsiwn a ddygwyd ymlaen |
| 3 | Newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon i gyfrwng Saesneg | - Ni fyddai darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn y dalgylch<br>- Ni fyddai'n denu disgyblion o Lanidloes sy'n teithio i Drefeglwys i dderbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg<br>- Nid yw'n adlewyrchu dewisiadau rhieni / tueddiadau presennol y disgyblion<br>- Mae nifer y disgyblion cyfrwng Saesneg yn yr ysgol yn isel iawn ar hyn o bryd<br>- Mae'n debygol o fod yn amhoblogaidd ymhlith rhai aelodau o'r gymuned leol<br>- Ni fyddai'n darparu darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ddynodedig yn nalgylch Llanidloes<br>- Nid yw'n cyflawni nodau ac amcanion Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys<br>- Nid yw'n bodloni dyhead Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg<br>- Nid yw'n cwrdd â'r holl Ffactorau Llwyddiant Allweddol |

## ATODIAD D – FFURFLEN YMATEB

### CYNNIG I NEWID CATEGORI IAITH YSGOL DYFFRYN TRANNON

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar y cynigion canlynol sy'n ymwneud ag Ysgol Dyffryn Trannon:

- Gwneud newid rheoledig er mwyn newid cyfrwng yr addysg yn Ysgol Dyffryn Trannon o ddwy ffrwd i gyfrwng Cymraeg.
- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno fesul cam, o flwyddyn i flwyddyn, gan ddechrau gyda'r Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2022.

Mae dogfen ymgynghori sy'n darparu rhagor o wybodaeth am y cynigion ar gael ar wefan y Cyngor yn https://cy.powys.gov.uk/trawsnewidaddysg. Mae'r ffurflen ymateb hon i'r ymgynghoriad yn rhoi cyfle i chi roi gwybod i ni am eich safbwynt ar gynnig y Cyngor. Gellir llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein hefyd – mae dolen i'r ffurflen ar-lein ar gael trwy ddilyn y ddolen uchod.

Dyddiad cau yr ymgynghoriad hwn yw **15 Ebrill 2021.** Mae'n rhaid i ni dderbyn pob ymateb erbyn y dyddiad hwn.

I gael gwybodaeth am sut y mae'r Tîm Trawsnewid Addysg yn diogelu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol a gesglir yn ystod prosesau ymgynghori, gweler hysbysiad preifatrwydd Trawsnewid Addysg, sydd ar gael drwy'r ddolen ganlynol: https://cy.powys.gov.uk/article/9804/Hysbysiad-Preifatrwydd-Trawsnewid-Ysgolion

### Rhan 1 – Amdanoch Chi

1. **Nodwch sut yr ydych yn gysylltiedig â'r ysgolion y mae'r ymgynghoriad hwn yn effeithio arnynt:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| ☐ | Rhiant, gofalwr neu warcheidwad | ☐ | Darpar riant, gofalwr neu warcheidwad |
| ☐ | Llywodraethwr | ☐ | Aelod o staff |
| ☐ | Aelod o'r gymuned | ☐ | Sefydliad e.e. Cyngor Cymuned |
| ☐ | Dim cysylltiad | ☐ | Arall |

Os 'Arall', nodwch: ________________________________________

2. **Os oes gennych chi gyswllt ag ysgol, nodwch pa ysgol yr ydych yn gysylltiedig â hi:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| ☐ | Ysgol Dyffryn Trannon | ☐ | Ysgol arall |
| ☐ | Dim cysylltiad | | |

Os ydych yn gysylltiedig ag ysgol arall, nodwch pa ysgol:

__________________________

3. **Nodwch eich cod post:** ________________________________________

**Rhan 2 – Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Nodwch eich ymatebion i'r cwestiynau isod.

4. **Nodwch unrhyw sylwadau sydd gennych chi ar gynnig y Cyngor i newid cyfrwng iaith Ysgol Dyffryn Trannon o ddwy ffrwd i gyfrwng Cymraeg.**

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

5. **A oes unrhyw ddewisiadau eraill yr ydych chi'n meddwl y dylai'r Cyngor fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Dyffryn Trannon yn hytrach na'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol?**

   Rhowch amlinelliad o unrhyw ddewisiadau eraill, gan gynnwys disgrifiad o'r dewis(iadau) yr ydych yn meddwl y dylai'r Cyngor fod yn eu hystyried:

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

**Yr effaith ar y Gymraeg**

**6. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu andwyol y byddai'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon yn eu cael ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg a thrin yr iaith Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg?**

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

**7. Sut ydych chi'n meddwl y gall y cynnig i newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon gael ei lunio neu ei newid fel y byddai'n cael effeithiau positif / effeithiau mwy positif, neu fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol / llai o effeithiau andwyol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg a thrin yr iaith Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg?**

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

**Yr effaith ar bobl â nodweddion gwarchodedig**

**8. A oes gennych unrhyw sylwadau neu bryderon ynglŷn ag effaith y cynnig i newid categori iaith Ysgol Dyffryn Trannon ar bobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?**

Y nodweddion gwarchodedig yw oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

____________________________________________________________________________

**Copi o'r Adroddiad Ymgynghori**

9. **Ar ddiwedd y Cyfnod Ymgynghori, bydd y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori sy'n crynhoi'r materion a godwyd yn yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ac yn darparu ymateb y Cyngor i'r materion hyn.**

   A hoffech gael gwybod am gyhoeddiad yr adroddiad ymgynghori?

   ☐ Hoffwn ☐ Na hoffwn

   Os gwnaethoch ateb 'Hoffwn', nodwch gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post:

   ______________________________________________________________

**Rhan 3 – Gwybodaeth am Gydraddoldeb (Dewisol)**

Rydym yn dymuno sicrhau ein bod yn cynnwys pob sector o'r gymuned yn ein hymgynghoriad, ac rydym yn gofyn i chi ddarparu'r wybodaeth hon i'n galluogi i nodi a yw'r ymgynghoriad wedi bod yn gynhwysol. Fodd bynnag, mae'r cwestiynau hyn yn ddewisol.

10. **Beth yw eich oedran?**

| | | |
|---|---|---|
| ☐ O dan 16 | ☐ 16-24 | ☐ 25-34 |
| ☐ 35-44 | ☐ 45-54 | ☐ 55-64 |
| ☐ 65-74 | ☐ 75-84 | ☐ 85+ |
| ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud | | |

11. **Beth yw eich rhywedd?**

| | | |
|---|---|---|
| ☐ Gwryw | ☐ Benyw | ☐ Rhyweddhylifol |
| ☐ Anneuaidd | ☐ Niwtral o ran y rhywiau | ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud |

12. **A allwch chi ddeall, siarad neu ysgrifennu Cymraeg?**

☐ Gallaf ☐ Na allaf ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

13. **Os oes gennych blant oedran ysgol, a oes ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim?**

☐ Oes ☐ Nac oes ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

**14. Os oes gennych blant oedran ysgol, a oes ganddynt unrhyw anghenion dysgu ychwanegol?**

☐ Oes ☐ Nac oes ☐ Mae’n well gen i beidio â dweud

**15. A ydych yn ystyried eich hun yn anabl?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Mae’n well gen i beidio â dweud

**16. Beth yw eich grŵp ethnig?**

| | | |
|---|---|---|
| ☐ Gwyn | ☐ Asiaidd | ☐ Du, Affricanaidd neu Garibïaidd |
| ☐ Cymysg | ☐ Sipsi/Teithiwr | ☐ Arall |
| ☐ Mae’n well gen i beidio â dweud | | |

**Diolch am lenwi’r holiadur hwn.**

Dylid anfon holiaduron wedi’u llenwi i’r cyfeiriad canlynol. Dylent gyrraedd **erbyn 15 Ebrill 2021**.

*Y Tîm Trawsnewid Addysg, Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, LD1 5LG*

*E-bost: school.consultation@powys.gov.uk*